**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2019 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10 y bore.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| E W Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K Finch (Trysorydd); C Everett (Clerc); R Fairhead a K Roberts (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1. YMDDIHEURIADAU

A Tansley — Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

2. DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim.

3. RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 22 HYDREF 2018

4.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i gael eu cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

5 MATERION YN CODI

5.1 Cyflog y diffoddwyr tân – rhoddodd y PST wybod i'r aelodau fod y trafodaethau'n parhau.

5.2 Darparu swydd clerc/swyddog monitro – nodwyd y bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal ar 22 Chwefror gyda'r bwriad o ofyn i'r Awdurdod gadarnhau yn ei gyfarfod ym mis Mawrth fod y contract yn cael ei ddyfarnu.

5.3 Papur Gwyn – roedd ymateb yr Awdurdod i'r Papur Gwyn wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru; diolchodd y PST i'r aelodau a'u cynghorau sir am eu hymatebion unigol.

5.4 Arolygiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – cynhaliwyd yr arolygiad ym mis Hydref 2018; cadarnhawyd na chanfuwyd unrhyw broblemau mawr. Ni fydd yr Awdurdod Gweithredol yn cyhoeddi adroddiad swyddogol, ond mae pob GTA wedi cael gwahoddiad i anfon cynrychiolydd i gyfarfod lle rhennir yr arferion da a welwyd.

6 MONITRO PERFFORMIAD

6.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i roi gwybod i'r aelodau am weithgareddau a pherfformiad yr Gwasanaeth mewn perthynas â'r amcanion gwella.

6.2 Aeth y PSC Morris â'r aelodau drwy'r adroddiad a thynnu sylw at y pwyntiau canlynol yn ymwneud ag Ebrill-Rhagfyr 2018:

- aethpwyd at 4,209 o danau, galwadau diangen a digwyddiadau gwasanaethau arbennig yng Ngogledd Cymru;
- aethpwyd at 1,019 o danau eilaidd, sef 42% yn fwy na'r nifer cyfartalog yr aethpwyd atynt yn y tair blynedd flaenorol; cydnabyddir bod nifer y tanau eilaidd y mae'r Gwasanaeth yn mynd atynt yn amrywio;
- fe wnaeth nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi ostwng 16% o'i gymharu ag yn yr un cyfnod yn 2017 (291 i 244);
- o ran tanau glaswelltir, coetir a chnydau, roedd y Gwasanaeth wedi mynd at 407 o danau *damweiniol* a 181 o danau *bwriadol*;
- fe wnaeth nifer y galwadau am gymorth, a oedd yn y pen draw yn alwadau diangen, gynyddu 8% i 1,760 o'i gymharu â 1,625 yn ystod yr un cyfnod yn 2017;
- cafwyd 5 o farwolaethau mewn tanau damweiniol mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru;
- o ran anafiadau, cofnodwyd bod 11 o bobl wedi cael mân anaf a bod 2 berson wedi cael anaf difrifol mewn tanau damweiniol mewn cartrefi.

6.3 Roedd yr Aelodau'n ddiolchgar am yr adroddiad manwl, a chawsant gyfle i ofyn cwestiynau ac atebodd y swyddogion y rheini yn briodol.

6.4 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

7 YMATEB I'R SYLWADAU A DDAETH I LAW YN YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS YR AWDURDOD YN 2018

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ofyn i'r aelodau gymeradwyo ymateb drafft i'r atebion ysgrifenedig a ddaeth i'r Awdurdod yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn 2018.

7.2 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr, roedd yr Aelodau wedi cael gwybodaeth am yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, ac o ganlyniad i hynny ac o ganlyniad i'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd, penderfynodd yr Awdurdod gael £1.7 miliwn o gynnydd yn ei gyllideb refeniw a pharhau â'i ddau amcan gwella a llesiant yn 2019/20.

7.3 Nododd yr Aelodau ei bod yn arfer dda cyhoeddi ymateb gan yr Awdurdod i gydnabod y pwyntiau allweddol a oedd yn yr ymatebion ysgrifenedig a sut maent wedi cyfrannu at y gwaith o wneud y penderfyniadau.

7.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cyhoeddi ymateb drafft yr Awdurdod i'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn 2018.**

8 CYNLLUN GWELLA A LLESIANT DRAFFT 2019-20

8.1 Fe wnaeth PSC Morris gyflwyno drafft terfynol Cynllun Gwella a Llesiant 2019/20, i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod nesaf ar 18 Mawrth 2019.

8.2 Nodwyd bod rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi amcanion gwella a llesiant a bod wedi cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn broses o ddatblygu'r amcanion hynny.

8.3 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa am y ddau amcan tymor hir y cytunodd yr Awdurdod arnynt yn 2017/18, a chytunwyd bod y rhain yn parhau. Dyma'r amcanion:

> A: Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i fod yn ddiogel os ydynt yn digwydd; a
>
> B: Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pan a lle bo angen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg.

8.4 Teimlai'r Aelodau fod y ddogfen wedi cael ei hysgrifennu'n dda a diolchwyd i'r PST Morris a'r tîm a gyfrannodd at y gwaith o'i datblygu.

8.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Gwella a Llesiant – drafft terfynol 2019-20, i'w gyflwyno i'r Awdurdod llawn ar 18 Mawrth 2019.**

9 Y DATBLYGIADAU O RAN DARPARU ASEDAU CYDNERTHEDD CENEDLAETHOL YNG NGOGLEDD CYMRU

9.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i roi gwybod i'r Aelodau am y newidiadau o ran darparu asedau cydnerthedd cenedlaethol yng Ngogledd Cymru.

9.2 Esboniodd y PSTC Fairhead fod yr asedau cydnerthedd cenedlaethol wedi cael eu cyflwyno yn dilyn ymosodiad terfysgol 9/11; roedd Llywodraeth y DU yn darparu cyllid i ddatblygu nifer o asedau cydnerthedd cenedlaethol i ddelio ag ymosodiadau terfysgol posibl yn y DU. Roedd yr asedau'n cynnwys Unedau Ymateb i Ddigwyddiadau (Unedau IRU), a gafodd eu datblygu i ddihalogi nifer fawr o bobl ar ôl unrhyw ollygiadau cemegol neu fiolegol ar raddfa fawr.

9.3 Yn dilyn adolygiad diweddar, mae'r rhagdybiaethau a'r dull cynllunio ar gyfer dihalogi torfol wedi canfod y byddai unedau llai o faint a mwy ystwyth yn fwy effeithiol na'r Unedau IRU oherwydd byddent yn cymryd llai o amser i'w sefydlu ac i ddecrhau dihalogi pobl. Felly, ym Mangor, bydd Uned Dihalogi Torfol (MDU) yn dod yn lle'r Uned IRU yn ystod 2019/20. Nodwyd na fydd y newid hwn yn cael unrhyw effaith ariannol ar yr Awdurdod gan fod yr asedau a'r costau refeniw parhaus yn cael eu hariannu yng Nghymru drwy grant gan Lywodraeth Cymru.

9.4 **PENDERFYNWYD nodi:**

**(i) canlyniad rhagdybiaethau a dull cynllunio diwygiedig ar gyfer pennu gofynion am asedau Cydnerthedd Cenedlaethol yn y DU; a**

**(ii) y penderfyniad i gael Uned MDU (Uned Dihalogi Torfol) yn lle'r Uned IRU (Uned Ymateb i Ddigwyddiadau) ym Mangor yn ystod 2019/20.**